
IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MAWRTH, 27 TACHWEDD 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Edgar Owen a Jason Wayne Parry

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu), Robert Taylor (Swyddog Gorfodi Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nŵd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y drosedd ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd bod Mr A wedi derbyn collfarn am gyfres o droseddau yn ymwneud a chael arf bygythiol yn ei feddiant. Amlygodd fod y troseddau yn rai hanesyddol ac nad oedd unrhyw elfen o drais yn berthnasol i'r digwyddiad. Ategwyd bod yr ymgeisydd bellach wedi ymgartrefu ym Môn ac yn ceisio am swydd i gefnogi yntau a'i bartner. Nodwyd bod ganddo drwydded yrru lan.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am gyfres o droseddau gan Lys Siryf Arbroath (Mawrth 2004). Roedd y drosedd gyntaf yn ymwneud a chael arf fygythiol yn ei feddiant yn groes i Ddeddf 47 Deddf Cyfraith Troseddol (Yr Alban) 1995, lle cafodd ddirwy o £200.00. Roedd yr ail drosedd oherwydd methiant, heb esgus rhesymol, i ymddangos mewn llys, yn groes i Ddeddf Trefniadaeth Troseddol (Yr Alban) 1995 lle cafodd ddirwy o £50.00. Roedd y trydydd drosedd yn un o dorri'r heddwch a cafodd ddirwy o £100.00.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais a pharagraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am

y mosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill sy'n droseddau sydd yn ymwneud â meddu arf heblaw dryll, a throseddau tebyg.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn o 2004 yn ymwneud a throsedd o drais. Gyda'r drosedd o feddu ar arf wedi digwydd yn yr Alban fe'i hystyriwyd yn yr un modd a throsedd o feddu ar arf yng Nghymru ac felly'n synhwyrol i'w fesur o dan baragraff 6.5 o'r polisi. Er hynny, gyda'r gollfarn wedi digwydd dros 14 mlynedd yn ôl, (tu hwnt i ofynion y polisi o 3 blynedd) nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddi-amddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd bod Mr B yn ymwybodol pan oedd yn gwneud y cais y byddai yn cael ei gyfeirio at Is Bwyllgor oherwydd cynnwys yr adroddiad DBS. Ategwyd nad oedd gan yr ymgeisydd unrhyw gollfarn ers 2014 ac nad oedd wedi yfed alcohol ers derbyn collfarn am yfed a gyrru yn 2011. Nododd bod ganddo dri o blant a'i fod angen swydd i gefnogi ei deulu ifanc oherwydd iddo gael ei wneud yn ddi-waith yn ddiweddar.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd, ar hyn o bryd, yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni

Cyngor Gwynedd'

- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am gyfres o droseddau gan Lys Ynadon, Gwynedd (Tachwedd 2011). Roedd y drosedd gyntaf yn ymwneud a gyrru car heb yswiriant yn groes i adran 143 (2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 lle cafodd ddirwy o £120.00 ac ardystiwyd ei drwydded. Roedd yr ail drosedd am yfed a gyrru yn groes i adran 5(1)(A) o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd. Cafodd ddirwy o £120.00, gorchymyn i dalu costau a'i wahardd rhag gyrru am 18 mis. Roedd y trydydd drosedd am yrru car yn groes i ofynion y drwydded a cafodd orchymyn i dalu costau £15 ac ardystiwyd ei drwydded.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn a ddwy drosedd gan Lys Ynadon Gwynedd (Hydref 2013). Roedd y drosedd gyntaf yn ymwneud a dwyn yn groes i adran 1 Deddf Lladrad 1968 lle cafodd orchymyn i dalu costau o £100 ac iawndal o £10. Roedd yr ail drosedd yn ymwneud a methu ildio i'r ddalfa yn groes i adran 6(1) Deddf Mechnïaeth 1976 lle cafodd ddirwy o £50 a chostau o £20.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am gyfres o droseddau gan Lys Ynadon Gwynedd (Mehefin) 2014). Roedd y drosedd gyntaf yn ymwneud ac atal cwnstabl yn groes i adran 89 (2) Deddf yr Heddlu 1996 lle cafodd ddirwy o £90. Roedd yr ail drosedd yn ymwneud a defnyddio cerbyd heb yswiriant yn groes i adran 143 (2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988 lle cafodd ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o 12 mis, gorchymyn i dalu dirwy o £110 a chostau o £105.00. Roedd y trydydd drosedd yn ymwneud a throsedd yn ymwneud a gyrru car yn groes i ofynion y drwydded a cafodd orchymyn i dalu dirwy ac ardystiwyd ei drwydded..

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 8 o'r Polisi yn cyfarch troseddau anonestrwydd a pharagraff 8.2 yn nodi byddai cais yn cael ei wrthod fel rheol os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill sy'n droseddau sydd yn ymwneud a bwgleriaeth.

Ystyriwyd paragraff 12.10 lle nodi'r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd a arweiniodd at waharddiad o 12 mis neu fwy, oni

bai bod cyfnod o 18 mis o leiaf wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

Rhoddodd yr Is Bwyllgor ystyriaeth hefyd i baragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Ystyriodd yr Is Bwyllgor bod y drosedd o anonestrwydd yn un hanesyddol ac felly nid oedd yn sail i wrthod y cais. Wrth ystyried y troseddau gyrru yn unigol ymddengys eu bod tu hwnt i'r cyfnod amser a ystyrir ym mharagraff 12.10, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o aildroseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O ganlyniad roedd paragraff 16.1 yn dod i rym.

Er bod yr Is Bwyllgor yn derbyn yr eglurhad a roddwyd gan gynrychiolydd yr ymgeisydd ar gefndir y digwyddiadau, ac nad oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o ofynion ei drwydded, roedd y drosedd o yrru heb sicrhau bod ei drwydded yn cyfarch y gofynion, yn un a oedd yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.25 y.h.

CADEIRYDD